



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru  
Care and Social Services Inspectorate Wales

## **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**

Deddf Safonau Gofal 2000

# **Adroddiad Arolygu**

**This report is also available in English / Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn  
Saesneg**

**Antur Waunfawr**

**Caernarfon**

**Math o Arolygiad – Sylfaenol  
Dyddiad yr arolygiad – 2 Hydref 2017  
Dyddiad cyhoeddi – 9 Tachwedd 2017**

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## Crynodeb

### Ynglŷn â'r gwasanaeth

Mae Antur Waunfawr wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu gwasanaethau gofal cartref i bobl hŷn dros 65 oed, oedolion iau rhwng 18 a 64 oed gydag anableddau dysgu, ac oedolion iau rhwng 18 a 64 oed gydag anableddau corfforol. Mae'r asiantaeth ar hyn o bryd yn darparu gofal cartref i un person sydd ag anabledd dysgu.

Mae'r darparwr, Antur Waunfawr, wedi'i leoli ym Mryn Pistyll, Waunfawr, ac mae wedi enwebu unigolyn cyfrifol. Y rheolwr cofrestredig ar gyfer y gwasanaeth gofal cartref yw Guto Wyn Hughes.

### Pa fath o arolygiad a gynhaliwyd?

Arolygiad llawn, dirybudd oedd hwn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom ni (AGGCC) ymweld â'r gwasanaeth ar 2 Hydref 2017 rhwng 9.30am a 2.45pm.
- Gwnaethom siarad â'r unigolyn a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, y rheolwr cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol, y swyddog adnoddau dynol, ac aelod o staff.
- Gwnaethom edrych ar ffeiliau tri aelod o staff a ffeil gofal un person sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Gwnaethom ymweld ag eiddo'r unigolyn lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.
- Gwnaethom edrych ar y wybodaeth a gynhwysir mewn holiadur staff oedd wedi'i ddychwelyd.
- Gwnaethom edrych ar sampl o'r cofnodion a'r dogfennau. Gwnaethom ganolbwyntio ar recriwtio staff, hyfforddiant a goruchwyliaeth, amserlenni staff, y datganiad o ddiben, yr adroddiad sicrwydd ansawdd, a'r weithdrefn gwyno.

### Beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda?

Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu cyfleoedd i'r person sy'n defnyddio'r gwasanaeth gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau, ac mae wedi'i ymrwymo i'r model cymorth gweithredol wrth ddarparu gofal.

Mae tîm o staff cyson ar waith o hyd, sy'n galluogi cysondeb a chyn lleied o aflonyddwch i'r gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu.

### Beth sydd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf?

Ar y cyfan, canfuom fod yr asiantaeth yn gweithredu i'r un safon ag yr oedd yn ystod yr arolygiad diwethaf.

### **Beth mae angen ei wneud i wella'r gwasanaeth?**

Ni fu unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio i'w hadrodd.

Tynnwyd sylw'r person cofrestredig i'r materion canlynol fel y gallent gael sylw i wella arfer:

- Darparu aelodau staff â lefel gyson a chyfartal o ddarpariaeth hyfforddiant.
- Dylai'r gwasanaeth ystyried sut mae gwybodaeth sicrhau ansawdd yn cael ei gwerthuso a'i rhannu i lywio cynllun gweithredu.

## Ansawdd Bywyd

Yn gryno, roedd y person oedd yn derbyn y gwasanaeth yn hapus gyda'r gofal a ddarperir. Gwelsom ei fod wedi arwyddo ei gynlluniau gofal, a oedd yn fanwl ac wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd gan yr unigolyn gyfle i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau o fewn y gymuned, ac roedd ganddo ddiets iach a maethlon. Roedd y tîm staff yn deall anghenion gofal a chymdeithasol yr unigolyn ac yn ei gynorthwyo i ymgysylltu â'i gynllun cefnogi gweithredol. Gwelsom hefyd fod yr unigolyn yn derbyn gofal yn yr iaith o'i ddewis.

Mae pobl yn teimlo bod eu hanghenion unigol yn cael eu hadnabod a'u gofalu amdanynt. Mae hyn oherwydd bod yr unigolyn yn derbyn y gofal cywir, ar yr amser cywir, ac yn y ffordd y mae'n dymuno ei gael. Mae cynlluniau gofal yn cynnwys gwybodaeth fanwl, a gwelsom fod yr unigolyn yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio arno ac sydd yn amserol. Mae ffeil ofal yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth fanwl a chynhwysfawr ynglŷn â'i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yn dangos fod cysylltiad wedi'i wneud gyda gwahanol wasanaethau proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol arbenigol fel deintydd, ciropodydd, meddyg teulu, optegydd, a gweithiwr cymdeithasol. Roedd gwybodaeth a gynhwysir yng nghynlluniau gofal yr unigolyn yn dangos bod ei les, hapusrwydd, hoffterau unigol a galluoedd yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth. Roedd y cynlluniau hefyd yn cofnodi canlyniadau ac argymhellion gwasanaethau proffesiynol i aelodau staff eu dilyn. Roedd trafodaethau gyda'r rheolwyr a'r tîm staff yn tanlinellu eu bod yn dymuno i'r sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth gadw ei annibyniaeth gymaint â phosibl. Roedd yr unigolyn yn cael ei annog i olchi ei ddillad ei hun a'u sychu, a gwneud ychydig o bobi. Roedd y wybodaeth a oedd yn ymwneud a'i hoffterau unigol personol a'i ddiddordebau wedi cael ei hysgrifennu mewn ffordd a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn tynnu sylw at y ffordd yr oedd am gael y gofal a ddarperir. Roedd y cynlluniau gofal yn cynnwys canllawiau ynglŷn â sut y dylai gofal personol gael ei ddarparu ac roedd y wybodaeth wedi'i hysgrifennu mewn camau manwl, disgrifiadol, hawdd eu dilyn. Roedd hyn yn galluogi staff i ddarparu gofal a chefnogaeth a oedd yn diwallu anghenion, hoffterau unigol a dymuniadau'r unigolyn. Gwelsom fod asesiadau risg wedi'u cwblhau a'u bod yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn unol ag arweiniad y cynllun gofal. Roedd y cynlluniau gofal wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd pryd bynnag oedd newid o bwys wedi digwydd yn sefyllfa'r unigolyn. Gwelsom hefyd fod yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi arwyddo ei gynlluniau gofal ac wedi dweud wrthym ei bod yn "*hapus*" gyda'r gwasanaeth oedd yn cael ei ddarparu.

Roedd pobl yn cael eu hannog i gadw'n iach ac yn gallu dewis cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hyn oherwydd bod yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael cyfle i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Dywedodd y staff a'r tîm rheoli wrthym fod barn a safbwyntiau'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn bwysig iawn iddynt a bod y cynllunydd wythnosol yn ymgorffori hoffterau unigol yr unigolyn gymaint â phosibl. Roedd gwybodaeth a gynhwysir tu fewn i ffeil ofal yr unigolyn am ei ddiddordebau a'i hoffterau unigol yn dangos eu bod yn cadw at hyn. Roedd cynllun cefnogi gweithredol wythnosol yn dangos bod yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau megis mynychu grŵp celf, siopa, sesiwn cadw'n heini, mynd am dro, a mynd am bryd gydag aelodau teulu. Roedd cynhwysiant cymdeithasol yn cael pwyslais yn y cynllunydd wythnosol ac roedd yn

dangos bod staff yn rhoi cymorth i'r unigolyn i fynychu apwyntiadau iechyd a chymdeithasol. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi cefnogi cyd-fenter, a wnaeth bara am wythnos, gydag Age Cymru o fewn y gymuned leol, a oedd yn annog cyfranogiad cymunedol mewn cyfres o weithgareddau. Roedd gwybodaeth hanesyddol a gedwir yn y ffeil ofal yn dangos bod lleoedd o ddiddordeb megis canolfannau celf leol, theatrau, canolfannau garddio, cyngherddau a thafarndai / tai bwyta yn cael eu mynychu'n aml a gwelsom hefyd dystiolaeth ffotograffig o hyn. Mae pobl mor iach ac egnïol ag y dymunant fod, ac yn cael eu hannog a'u cefnogi i fyw bywyd mor iach ac egnïol ag y mae eu hiechyd yn ei ganiatáu.

Mae anghenion a hoffterau unigol pobl yn cael eu deall a'u rhagweld gan dîm staff profiadol ac ymroddedig. Mae hyn oherwydd bod yr unigolyn yn cael ei drin gyda pharch, yn derbyn gofal da, ac yn elwa o ddiet iach. Gwelsom y staff a'r tîm rheoli yn siarad â'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth mewn ffordd barchus, garedig ac ystyriol. Roeddent yn ymatebol i anghenion a dymuniadau'r unigolyn a gwelsom hefyd hiwmor yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gytbwys a pharchus. Dangosodd y tîm staff hefyd amynedd wrth gyfathrebu gyda'r unigolyn, gan adael digon o amser iddo i brosesu ac ateb yn ystod sgysiau. Gwelsom gofnodion gweinyddu meddyginiaeth yr unigolyn, a gwelsom nad oedd unrhyw gamgymeriadau wedi'u gwneud. Roedd y ffeil ofal hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ei feddyginiaeth a'i defnydd, ac unrhyw sgil effeithiau. Gwelsom hefyd ddogfennaeth yn dangos bod ei bwysau wedi cael eu cofnodi'n gyson. Roedd trafodaethau gyda'r tîm staff a gwybodaeth a gafwyd ganddynt yn dangos eu bod yn ymwybodol o hoffterau dietegol yr unigolyn. Roeddent hefyd yn ymwybodol o ba mor bwysig oedd bod yr unigolyn yn derbyn diet iach, maethlon a chytbwys i gynorthwyo ei anghenion iechyd.

Mae pobl yn derbyn gofal yn yr iaith sydd ei hangen, ac mae eu hunaniaeth ddiwylliannol yn cael ei chydabod a'i gwerthfawrogi. Mae hyn oherwydd bod yr unigolyn yn gallu derbyn gwasanaeth a mynegi ei hun yn yr iaith o'i ddewis. Roedd y gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, ond roedd yr holl ofal a chymorth yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd aelod o staff oedd yn siarad Cymraeg ar gael yn ystod pob sifft i sicrhau bod dewis iaith yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gallu cael ei ddiwallu'n gyson. Cawsom wybod gan y tîm rheoli fod yr holl dîm staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Gwnaethom arsylwi ar aelodau staff yn siarad Cymraeg gyda'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gyda'i gilydd drwy gydol yr arolygiad. Roedd gwybodaeth yn y dogfennau yn y ffeil ofal yn gymysgedd o Gymraeg a Saesneg a cawsom wybod y gallai'r holl ddogfennau gael eu cwblhau yn Gymraeg os oedd angen.

## Ansawdd Staffio

I grynhoi, mae'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn elwa o wasanaeth sy'n gweithredu gwiriadau diogelwch staff cadarn cyn ac yn ystod cyflogaeth. Mae staff newydd yn cwblhau hyfforddiant sefydlu ffurfiol ac mae ganddynt fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi. Roedd y rhan fwyaf o'r tîm staff wedi gweithio i'r gwasanaeth ers llawer o flynyddoedd ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu bod yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Roedd angen mân welliant mewn perthynas â darparu aelodau staff gyda lefel gyson a chyfartal o ddarpariaeth hyfforddiant.

Mae pobl yn elwa ar wasanaeth sy'n dilyn proses recriwtio drwyadl ac amserol. Mae hyn oherwydd bod dulliau diogel o recriwtio a sefydlu ar waith. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o ffeiliau staff. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn modd amserol i sicrhau fod aelodau staff yn addas i gefnogi oedolion sy'n agored i niwed. Roedd ffeiliau'r staff hefyd yn dangos fod y broses recriwtio'n gynhwysfawr a bod y gwasanaeth yn mynd ar ôl gwybodaeth ac yn gwneud ymdrech i lenwi unrhyw fylchau yn y wybodaeth a ddarperid. Roedd nodiadau cyfweld yn dangos y dystiolaeth a ddefnyddid i wneud penderfyniad wrth gynnig swydd. Roedd ffeiliau staff yn dangos eu bod wedi cwblhau ffurflenni cais a oedd yn cynnwys manylion yn ymwneud â'u cymwysterau, profiadau gwaith blaenorol a, phan fo hynny'n bosib, geirdaon gan gyflogwyr blaenorol. Cafodd ei nodi nad oedd holl gyflogwyr wedi darparu geirdaon ffurfiol, ond gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud ei orau i gael gwybodaeth bellach berthnasol ynglŷn ag ymgeiswyr. Cawsom wybod bod bylchau mewn cyflogaeth ac unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â phrofiad gwaith yn derbyn sylw yn ystod y cyfnod cyfweld. Gwelsom enghreifftiau o'r broses sgorio a phenderfynu a ddefnyddid mewn cyfweiliadau a gweld ei bod yn gadarn ac yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol i gyfiawnhau penderfyniadau. Cawsom wybod gan y tîm rheoli fod staff newydd yn dilyn proses hyfforddiant sefydlu fewnol y gwasanaeth. Roedd ganddynt fynediad at bolisiau'r gwasanaeth ac yn cael cyflwyniad i'w ethos, nodau ac amcanion. Roedd aelodau staff newydd hefyd yn cwblhau sifftiau 'cysgodi' gydag aelodau staff profiadol cyn dechrau gweithio ar sifftiau ar eu pen eu hunain. Roedd y gwasanaeth hefyd yn annog aelodau staff i gwblhau ac ennill cymwysterau lefel dau mewn gofal ac yn eu cefnogi yn ystod y broses hon.

Mae pobl yn elwa ar wasanaeth lle rhoddir blaenoriaeth i lesiant staff a lle mae'r tîm staff yn cael eu harwain a'u cefnogi'n dda. Mae hyn oherwydd bod aelodau staff yn derbyn goruchwyliaeth, arfarniadau a hyfforddiant sy'n ffurfiol a rheolaidd, er i ni argymhell y dylid darparu lefel gyson a chyfartal o hyfforddiant. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol wedi'u cwblhau. Roedd y wybodaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r staff yn datgan nad oeddent yn aros tan oruchwyliaeth ffurfiol i drafod materion gweithredol a phersonol. Gwnaethant ddweud eu bod yn cael cysylltiad dyddiol bron gyda'r rheolwr cofrestredig ac yn gweld hyn fel ffordd o gael gafael ar gymorth a goruchwyliaeth anffurfiol. Gwnaethom hefyd edrych ar gofnodion hyfforddi staff. Gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu'r tîm staff ag ystod amrywiol o gyfleoedd hyfforddi gorfodol, a'i fod hefyd yn trefnu hyfforddiant arbenigol a oedd yn berthnasol i anghenion yr unigolyn. Roedd ganddo raglen hyfforddi staff parhaus ac roedd cofnodion yn dangos bod hyfforddiant gloywi wedi'i gwblhau. Gwelsom fod gan y gwasanaeth systemau ar waith i ddangos pan oedd angen adnewyddu hyfforddiant. Roedd yr

hyfforddiant arbenigol yn darparu'r tîm staff â gwybodaeth a sgiliau a oedd yn eu galluogi i ddarparu gofal i gynorthwyo anghenion iechyd yr unigolyn. Roedd gwybodaeth a gafwyd gan y tîm staff yn dweud eu bod yn hapus gyda'r hyfforddiant a ddarperir, ac yn dangos ei fod yn eu cynorthwyo i gyflawni eu rolau. Gwelsom, fodd bynnag, nad oedd rhai staff wedi cwblhau lefel gyson a chyfartal o hyfforddiant. Cafodd ei nodi bod rhai aelodau staff wedi cwblhau mwy o hyfforddiant na rhai eraill, a gwnaethom drafod hyn gyda thîm rheoli'r gwasanaeth. Nid oedd unrhyw dystiolaeth oedd yn awgrymu bod methu â chwblhau rhai sesiynau hyfforddi wedi effeithio ar allu'r aelodau o staff i gyflawni eu rolau ac nid oedd wedi effeithio'n negyddol ar hapusrwydd neu lesiant yr unigolyn. Roedd darparu cyfleoedd i aelodau staff gael mynediad at a chwblhau cyfleoedd hyfforddi cyfartal yn cael ei weld fel maes i'w wella.



## Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth

I grynhoi, roedd y gwasanaeth yn cael ei redeg mewn modd effeithlon gan dîm rheoli profiadol, ymrwymedig a chefnogol. Roedd y rhan fwyaf o'r tîm staff wedi gweithio i'r gwasanaeth am lawer o flynyddoedd ac roeddent yn hyderus wrth fynd at y tîm rheoli i fynegi unrhyw bryderon. Roedd proses o sicrhau ansawdd ar waith a oedd yn cynnwys barn yr unigolyn. Cafodd mân welliant ei nodi mewn perthynas â sicrhau sut yr oedd y wybodaeth sicrhau ansawdd yn cael ei gwerthuso a'i rhannu er mwyn llywio cynllun gweithredu.

People receive care and support from a service which sets high standards for itself. This is because a committed and supportive management team oversees a dedicated staff team who are focused on ensuring the person receives good quality care. Information obtained from members of staff highlighted they believed the service was well-run and operated in a professional manner. The staff team felt they worked well as a team and stated *"mae pawb yn dod ymlaen efo'i gilydd"* (everyone gets along with one another). Discussions with the staff and management team confirmed they had a detailed understanding of the person's support needs, understood their roles and were committed to providing a high standard of care at all times. We saw records which showed many of the staff team had supported the person using the service for many years. This meant the person received consistent care and support from a staff team who were aware of their history and could share stories and reminisce about past memories.

Roedd pobl a'r tîm staff yn gallu mynegi eu pryderon a chael budd o wasanaeth sy'n flaengar ac yn gwneud y mwyaf o'i adnoddau. Mae hyn oherwydd bod ystod o bolisiâu gwasanaeth yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch. Gwnaethom weld sampl o bolisiâu gweithredol, a oedd yn cynnwys y broses gwyno a chwythu'r chwiban. Roedd y polisiâu'n cefnogi'r gwasanaeth a oedd yn cael ei gynig ac roeddent ar gael i'r tîm staff. Cafodd ei nodi nad oedd unrhyw bryderon diogelu ers yr arolygiad diwethaf. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi mabwysiadu fformat trafod agored gyda'r tîm staff er mwyn trafod unrhyw bryderon. Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan aelodau staff yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a gwnaethant ddweud bod y rheolwr cofrestredig yn *"hawdd mynd ato"*, *"yn eu deall yn dda"* ac *"isho'r gorau"* i'r sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r tîm staff. Gwnaethant hefyd gadarnhau y gwrandewid ar faterion o bryder a gwnaethant ddweud y byddai rhywun yn cysylltu â nhw *"yn syth"* os oedd ganddynt unrhyw bryderon. Dywedodd yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym y byddai'n siarad gydag un ai'r rheolwr cofrestredig neu'r unigolyn cyfrifol os oedd yn anhapus am unrhyw beth, ac roedd yn cyfeirio atynt gan ddefnyddio'u henwau cyntaf yn ystod ein trafodaeth. Gwelsom fod ganddo fynediad at wasanaeth eiriolaeth annibynnol ar unrhyw adeg a bod y gwasanaeth yn cofnodi pan oedd yr eiriolwr yn ymweld â'r unigolyn. Roedd trafodaethau gyda'r tîm staff yn amlygu eu bod yn ymwybodol o'r broses ddiogelu a'r polisiâu cwynion a chwythu'r chwiban. Gwnaethant hefyd ddweud nad oedd ganddynt *"ddim problem defnyddio fo"* pe bai angen.

Mae'r darparwr wedi'i ymroi i'r broses sicrhau ansawdd a chwblhau dogfennau rheoleiddiol. Mae hyn oherwydd bod dogfennau rheoleiddiol wedi'u cwblhau ac mae gan y cartref nodau clir sy'n rhoi pwyslais penodol ar anghenion yr unigolyn. Gwelsom ddeddoliad o ddogfennau rheoleiddiol y gwasanaeth megis y datganiad o ddiben, y canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth, a'r adroddiad sicrhau ansawdd. Gwelsom fod y

datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r gwasanaeth ac yn darparu disgrifiad cywir o'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Mae adroddiad sicrhau ansawdd hefyd wedi cael ei gwblhau, a gwelsom fod barn yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi'i chael trwy ddefnyddio holiadur darluniol. Roedd y ddogfen yn cael ei defnyddio i ganfod barn yr unigolyn ynglŷn â'i gartref, y cymorth a ddarperid, y gwasanaeth, aelodau staff, y dewisiadau a gynigiwyd, ac unrhyw welliannau y gellid eu gwneud. Er ein bod wedi gweld fod yr holiadur wedi'i arwyddo gan yr unigolyn, roedd hefyd yn dangos ei fod efallai heb ddeall pob cwestiwn. Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol, a ddywedodd y byddent yn adolygu'r holiadur i weld sut y gallai gael ei wella. Gwelsom y gellid gwella'r ffordd oedd gwybodaeth sicrhau ansawdd yn cael ei gwerthuso. Er bod barn yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad sicrhau ansawdd, ni wnaethom weld bod barn gwasanaethau proffesiynol, cynrychiolwyr nag aelodau staff wedi cael ei chynnwys. Gwelsom fod barn cynrychiolwyr yn ganmoliaethol. Gwnaethom drafod gyda'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol rhinweddau cynnwys barn yr holl randdeiliaid yn yr adroddiad ansawdd gofal blynyddol nesaf i'w helpu i lywio cynllun gweithredu gyda'r nod o sicrhau gwelliant parhaus.

## **Ansawdd yr Amgylchedd**

Nid yw thema ansawdd yr amgylchedd yn cael ei harolygu mewn lleoliadau gofal cartref gan fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn.

## Sut rydym yn arolygu gwasanaethau ac yn hysbysu am y canlyniadau

Rydym yn cynnal dau fath o arolygiad: sylfaenol a phwyslais penodol. Mae'r ddau yn ystyried profiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

- Mae **arolygiadau sylfaenol** yn asesu a oes cyfiawnhad dros gofrestrriad gwasanaeth ac a yw amodau'r cofrestrriad yn briodol. Ar gyfer mwyafrif y gwasanaethau, rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn bob tair blynedd. Mae gwarchodwyr plant cofrestredig, gofal y tu allan i'r ysgol, gofal sesiynol, meithrinfeydd a darpariaethau mynediad agored, ar y llaw arall, yn derbyn arolygiad bob pedair blynedd.

Ar adeg yr arolygiadau hyn, byddwn yn sicrhau bod gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben eglur ac effeithiol a bod y gwasanaeth yn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn ei ddatganiad o ddiben. Wrth asesu p'un a oes cyfiawnhad dros gofrestrriad, mae arolygwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu dangos hanes o gydymffurfio â'r rheoliadau.

- Bydd **arolygiadau sydd â phwyslais penodol** yn ystyried profiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a byddwn yn edrych ar p'un a yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn rhwng arolygiadau sylfaenol. Bydd arolygiadau sydd â phwyslais penodol bob amser yn ystyried ansawdd bywyd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a byddant o bosibl yn edrych ar feysydd eraill.

Gellid trefnu arolygiadau sylfaenol a rhai sydd â phwyslais penodol fel rhan o'r amserlen, neu eu cynnal mewn ymateb i bryderon.

Mae arolygwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau. Gallai'r rhain gynnwys:

- Siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u cynrychiolwyr
- Siarad â'r staff a'r rheolwr
- Edrych ar ddogfennau
- Arsylwi ar yr amgylchedd a'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl
- Edrych ar sylwadau a wnaed mewn holiaduron a ddychwelwyd gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y staff, a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol

Rydym yn arolygu ac yn nodi ein canfyddiadau dan 'Themâu Ansawdd'. Cyfeirir at y rhai hynny sy'n berthnasol i bob math o wasanaeth yn ein hadroddiadau arolygu.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn ein taflen 'Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru'. Gallwch lawr lwytho hon o'n gwefan, [Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru](#), neu fe allwch ffonio swyddfa ranbarthol leol AGGCC i ofyn i ni anfon copi atoch.